TGAU

# CBAC TGAU
# Bwyd a Maeth

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

### Uned 2: Ymchwiliad Bwyd

Addysgu o 2025
Dyfarnu o 2027



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Ynglŷn â'r pecyn hwn: gwybodaeth i athrawon ........ 1
Taflen Cofnodi Marciau'r Ymgeisydd ........ 3
Pecyn Asesu Ymgeiswyr ........ 4

SAMPL

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2024.



© WJEC CBAC Ltd, 2024

# Ynglŷn â'r pecyn hwn: gwybodaeth i athrawon

Yn y pecyn hwn mae deunyddiau asesu Uned 2: Ymchwiliad bwyd.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:
- gwybodaeth i athrawon ar sut i reoli trefniadau ar gyfer asesu
- taflen cofnodi marciau
- **pecyn ymgeiswyr** sy'n cynnwys:
    - manylion yr aseiniad
    - crynodeb manwl o bob tasg
    - gwybodaeth i ymgeiswyr, sy'n dweud wrth ymgeiswyr yr hyn y dylen nhw ac na ddylen nhw ei wneud wrth gwblhau'r asesiad
    - y cynllun marcio y mae'n rhaid ei ddefnyddio i asesu gwaith ymgeiswyr
    - Ffurflen Datganiad yr Ymgeisydd
    - taflen Cofnodi Amser yr Ymgeisydd.

**Rhaid rhoi copi o'r pecyn asesu ymgeiswyr cyflawn i bob ymgeisydd.**

**Rheoli'r asesiad**

Asesiad di-arholiad (mewnol) wedi'i farcio gan y ganolfan yw hwn. Rhaid dilyn y trefniadau canlynol wrth reoli a marcio'r asesiad.

**Amser**

Rhaid rhoi **8 awr** i'r ymgeiswyr i gwblhau'r asesiad hwn. Yn fras, dylai ymgeiswyr dreulio:

- 2 awr yn cwblhau Tasg 1
- 4 awr yn cwblhau Tasg 2
- 2 awr yn cwblhau Tasg 3.

Mae’r amser a awgrymir ar gyfer pob tasg yn ystyried cyfraniad y dasg at y gofynion asesu cyffredinol. Ni ellir gwneud unrhyw newidiadau i gyfanswm yr amser sydd ar gael ar gyfer yr asesiad hwn. Fodd bynnag, gall canolfannau addasu'r amser a awgrymir sydd ar gael ar gyfer pob tasg.

**Adnoddau**

Rhaid i'r pecyn asesu ymgeiswyr ac unrhyw adnoddau angenrheidiol fod ar gael i'r ymgeiswyr. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y tablau manwl ynglŷn â'r tasgau yn y pecyn ymgeiswyr.

**Cydweithio**

Caniateir gwaith grŵp. Gall ymgeiswyr gydweithio ar gyfer tasg/tasgau 1 a 2.

**Goruchwylio**

Rhaid i aseswr oruchwylio ymgeiswyr wrth gwblhau'r gweithgareddau. Mae'n rhaid i ganolfannau roi systemau ar waith er mwyn sicrhau na all ymgeiswyr ddefnyddio tystiolaeth y maent wedi bod yn ei datblygu y tu allan i weithgareddau a oruchwylir.

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd, 2024

**Dilysu**

Rhaid cael trefniadau goruchwylio ar waith er mwyn sicrhau dilysrwydd y dystiolaeth a gynhyrchir ar gyfer asesiad crynodol.

Ni ddylech roi mewnbwn nac arweiniad i ymgeiswyr yn ystod yr amser asesu. Mae hyn yn cynnwys rhoi adborth ffurfiannol ar y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno. Gallwch chi ddarparu arweiniad ar ofynion y dasg ac atgoffa ymgeiswyr am y bandiau marciau a sut i'w dehongli.

Gall ymgeiswyr adolygu ac ailddrafftio tystiolaeth yn annibynnol o fewn y rheolaethau amser ar gyfer yr asesiad.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr lofnodi'r datganiad hwn i gadarnhau mai eu gwaith nhw yw'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'w chymedroli a bod unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u cydnabod.

Mae'n rhaid i aseswyr lofnodi'r datganiad i gadarnhau bod y dystiolaeth a gyflwynwyd i'w chymedroli wedi'i chwblhau dan reolaeth fel y nodir yn yr asesiad hwn.

**Tystiolaeth yr ymgeisydd**

Mae tablau’r tasgau yn crynhoi’r fformatau sy’n dderbyniol ar gyfer tystiolaeth pob un o'r tasgau. Rhaid i unrhyw asesiad wedi'i addasu alluogi'r ymgeisydd i gynhyrchu'r dystiolaeth y gofynnir amdani yn y tabl hwn

**Marcio'r asesiad**

Cafodd cynllun marcio'r asesiad hwn ei gynnwys yn y pecyn ymgeiswyr.

Rhaid marcio'r holl dystiolaeth yn erbyn y cynllun marcio a ddarperir. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth sy'n cael ei marcio gydymffurfio ag unrhyw ofynion sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n berthnasol i ofynion y bandiau marciau.

Dim ond aseswr dynodedig a ddylai farcio tasgau. Dylai fod gan aseswr yr arbenigedd priodol yn y pwnc a'r lefel ar gyfer uned benodol. Mae'r aseswr yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:
- bod yr asesiad yn cael ei gynnal dan y rheolaethau a nodir yn nhabl y tasgau
- ei fod yn deall gofynion yr asesiad, y meini prawf asesu ac unrhyw ofynion asesu cyn dechrau’r asesu
- bod y dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn ddilys, awthentig; dibynadwy a chredadwy
- bod penderfyniadau asesu yn cael eu cofnodi'n gywir
- bod y dystiolaeth yn cael ei hanodi'n briodol
- bod dyfarniadau yn cael eu gwneud yn erbyn y datganiadau bandiau marciau yn unig

Rhaid cwblhau taflen gofnodi marciau ar gyfer pob ymgeisydd.

**Gwybodaeth Bellach**

Dylech gyfeirio at y ddogfen CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad i gael gwybod mwy am sut i reoli asesiadau yn ein cymwysterau TGAU.

**Enghraifft yw'r pecyn hwn. Ni ddylid ei ddefnyddio ar gyfer asesu byw.**

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd, 2024

# Taflen Cofnodi Marciau'r Ymgeisydd

| **Rhif y Ganolfan:** | | | | | | | | **Enw'r Ganolfan:** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Rhif yr ymgeisydd:** | | | | | | | | **Enw'r Ymgeisydd:** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Teitl yr uned:** | |
|---|---|

| **Tasg** | **Marc a Roddwyd** |
|---|---|
| | /10 |
| | /20 |
| | /10 |
| **Cyfanswm Marciau** | **/40** |

SAMPL

Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwyf yn fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y gwaith wedi ei gyflawni gan yr ymgeisydd yn unig. Mae'r ymgeisydd wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer DA a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rwy'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn

| **Llofnod yr Aseswr** | |
|---|---|
| **Enw (printiwch)** | |
| **Dyddiad** | / /20 |



© WJEC CBAC Ltd, 2024

# CBAC TGAU Bwyd a Maeth

## Pecyn Asesu Ymgeiswyr (3580N20-1)

## Uned 2: Ymchwiliad Bwyd

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd, 2024

## Ynglŷn â'r pecyn hwn: gwybodaeth a chyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Mae'r pecyn asesu ymgeiswyr hwn i ymgeiswyr sy'n cwblhau Uned 2: Ymchwiliad Bwyd.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:

- eich aseiniad
- crynodeb manwl o bob tasg, y gofynion tystiolaeth, a'r amodau (rheolaethau) ar gyfer cwblhau'r dasg.
- gwybodaeth i ymgeiswyr, sy'n dweud wrthych am bethau y dylech ac na ddylech eu gwneud wrth gwblhau'r asesiad
- y cynllun marcio fydd yn cael ei ddefnyddio i asesu eich gwaith
- Ffurflen Datganiad
- taflen Cofnodi Amser

**Bydd gennych 8 awr i gwblhau'r asesiad hwn.** Dylech dreulio tua:

- 2 awr yn cwblhau Tasg 1
- 4 awr yn cwblhau Tasg 2
- 2 awr yn cwblhau Tasg 3.

Cewch eich goruchwylio trwy gydol yr asesiad.

Mae eich athro/athrawes yn cael eich helpu chi i ddeall gofynion yr asesiad, y briffiau a'r tasgau, ond mae rhai rheolau am y math o gymorth maen nhw'n cael ei roi a faint maen nhw'n cael eich helpu chi. Siaradwch â'ch athro/athrawes os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr hyn rydych chi'n cael a ddim yn cael ei wneud wrth gwblhau'r tasgau. Bydd eich athrawon yn gwybod faint o gymorth maen nhw'n cael ei roi i chi.

Mae'n bwysig eich bod chi'n gweithio'n annibynnol ac yn sicrhau mai eich gwaith chi yn unig, heb gymorth, yw'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu. Bydd angen i chi a'ch athro/athrawes lofnodi datganiad mai eich gwaith chi eich hun yw'r holl waith rydych chi'n ei gyflwyno.

Cewch eich cynghori i wirio eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn fanwl ac yn gywir.

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd, 2024

# Aseiniad

Cynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig ar nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol cynhwysion mewn rysáit trwy gynnal ymchwiliad bwyd sy'n cynnwys casglu, dadansoddi a chyflwyno canlyniadau i brofi rhagdybiaeth.

Y dystiolaeth ysgrifenedig a **argymhellir** yw 2000 - 2500 o eiriau ar gyfer y dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer y **tair** tasg.

Mae gennych gyfanswm o **8** awr i gwblhau'r aseiniad hwn.

## Briff A

"Yn aml, bydd ffrwythau yn cael eu cadwoli a'u hychwanegu at rysáit i wella nodweddion y saig."
Ymchwiliwch i nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol defnyddio mathau gwahanol o ffrwythau wedi'u cadwoli wrth wneud swp o deisennau bach.

Rhaid cefnogi'r dasg hon â gwaith ymchwiliol – gweler y canllawiau isod.

## Briff B

"Gellir tyneru cig cyn coginio."
Ymchwiliwch i nodweddion gweithredol, swyddogaeth a phriodweddau cemegol defnyddio dulliau gwahanol i dyneru cig.

Rhaid cefnogi'r dasg hon â gwaith ymchwiliol – gweler y canllawiau isod.

Mae'n ofynnol i chi gynnal ymchwiliad bwyd.

**Gallwch** weithio ar y cyd fel grŵp, yn ôl cyfarwyddyd eich athro, i gwblhau rhai elfennau o rai tasgau, fel y disgrifir isod:

- Tasg 1
  - (a) (*) Datblygu rhagdybiaeth (nodwch fod elfen ymchwil Tasg 1 yn dasg unigol).
  - (b) Llunio cynllun – trafodaeth i ddatblygu cynllun a rennir.

- Tasg 2
  - (a) Casglu canlyniadau.

Gallwch ddatblygu rhagdybiaeth a rennir, trafod cynllun ymchwilio bwyd a rennir a chasglu'r un canlyniadau ag aelod o grŵp, ond **rhaid** i chi gael eich dehongliadau a'ch tystiolaeth eich hun o'r tasgau hyn. **Rhaid** mai eich gwaith chi eich hun yw'r holl dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir ar gyfer yr asesiad.

Sylwer, **nid yw** hwn yn aseiniad grŵp. **Nid oes** rhaid i chi weithio fel grŵp a bydd eich athro yn eich cefnogi i wneud y penderfyniad hwnnw. Bydd eich athro yn monitro gwaith y grŵp hwn yn ofalus i sicrhau y gellir asesu pob un o'ch cyfraniadau ar wahân.

Gall yr athro wneud y gwaith o gynhyrchu'r canlyniad eitem bwyd a reolir ar ffurf arddangosiad. P'un a ydych chi, neu'r athro yn cynhyrchu'r canlyniad eitem bwyd a reolir, ni roddir marciau am y dasg hon.



© WJEC CBAC Ltd, 2024

SAMPL

## Tasgau

| Tasg | | Tystiolaeth | Rheolaethau |
|---|---|---|---|
| **1** | **Cynllunio'r ymchwiliad bwyd**<br><br>Mae'n rhaid i chi gwblhau'r tasgau canlynol. Cofiwch, rhaid mai eich gwaith chi eich hun yw eich tystiolaeth ysgrifenedig.<br><br>(a) **Ymchwil**<br><br>Mae'n rhaid i chi ymchwilio i nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y bwyd sydd wedi'i nodi yn y briff rydych chi wedi ei ddewis.<br><br>(*) **Datblygu rhagdybiaeth**<br>Yn seiliedig ar eich ymchwil, mae'n rhaid i chi ddatblygu rhagdybiaeth ar yr hyn rydych chi'n meddwl fydd yn digwydd yn ystod yr ymchwiliad bwyd.<br><br>*Ni fyddwch yn derbyn marciau am yr elfen hon o'r dasg yr hoffech ei gwneud fel grŵp. Byddwch yn derbyn marciau mewn tasgau diweddarach am eich adfyfyrio ar y rhagdybiaeth hon. Os ydych chi'n gweithio mewn grŵp, mae'n bwysig bod gennych chi'r un ragdybiaeth. | **Tystiolaeth ymchwil** – gan ddefnyddio'r Rhyngrwyd ac unrhyw ffynonellau eraill yr hoffech eu defnyddio, rhowch grynodeb o'r canlynol:<br>• nodweddion gweithredol cynhwysion<br>• priodweddau swyddogaethol cynhwysion<br>• priodweddau cemegol cynhwysion<br>mewn rysáit (ryseitiau) ar gyfer y briff rydych chi wedi ei ddewis.<br><br>**Tystiolaeth ragdybiaeth**<br><br>Mae'n rhaid i chi gofnodi’r rhagdybiaeth rydych chi wedi'i dewis yn yr adran hon. | **Goruchwyliaeth:**<br>Uniongyrchol<br><br>**Arweiniad:**<br>Heb ei ganiatáu<br><br>**Adnoddau:**<br>Wedi'u caniatáu<br>Caniateir i ddysgwyr gael mynediad i'r Rhyngrwyd neu lyfrau i ymchwilio i nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y bwyd a nodwyd.<br><br>**Cydweithio:**<br>Wedi'i ganiatáu'n rhannol<br><br>(a) **Ymchwil** – ni chaniateir cydweithio<br><br>(*) **Datblygu rhagdybiaeth** – os yw'r athro wedi penderfynu caniatáu gwaith grŵp, caniateir cydweithio ar gyfer y dasg hon. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (b) **Llunio cynllun ymchwiliad bwyd**<br><br>Mae'n rhaid i chi lunio cynllun o arbrofion i'w gwneud. Rhaid i'ch cynllun gynnwys:<br><br>• offer sydd ei angen<br>• newidynnau (a'u rôl mewn arbrawf bwyd)<br>• dulliau o gasglu data (gan ddefnyddio profion rhinweddau synhwyraidd)<br>• dulliau o ddadansoddi canlyniadau (profion dadansoddi synhwyraidd).<br><br>**(c) Cyfiawnhau dewisiadau**<br><br>Rhaid i chi gyfiawnhau dewisiadau ar gyfer gwaith arbrofol ac addasiadau a wneir er mwyn cymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol cynhwysion mewn rysáit.<br><br>(Drwy gydol yr ymchwiliad bwyd, dylech fod yn ymwybodol o arferion hylendid bwyd a diogelwch wrth gynnal ymchwiliad bwyd. Ni fyddwch yn derbyn unrhyw farciau am yr adran hon, ond mae'n bwysig eich bod yn dilyn hyn er mwyn eich diogelwch chi a diogelwch pobl eraill.) | **Tystiolaeth gynllunio** – mae'n rhaid i chi gofnodi manylion eich cynllun gan gynnwys y dystiolaeth ganlynol:<br><br>• yr offer angenrheidiol a'u pwrpas<br>• y newidynnau y byddwch yn eu newid a'u rolau yn yr ymchwiliad bwyd<br>• y dulliau y byddwch yn eu defnyddio i gasglu data profion rhinweddau synhwyraidd<br>• y dulliau y byddwch yn eu defnyddio i ddadansoddi canlyniadau gan ddefnyddio profion dadansoddi synhwyraidd.<br><br>**Tystiolaeth o gyfiawnhau dewisiadau** – mae'n rhaid i chi ysgrifennu cyfiawnhad o'r dewisiadau rydych chi wedi'u gwneud wrth gynllunio'ch arbrawf. Mae'n rhaid i chi gynnwys eich dewis o waith arbrofol ac addasiadau mewn perthynas â'r canlynol:<br><br>• nodweddion gweithredol cynhwysion<br>• priodweddau swyddogaethol cynhwysion<br>• priodweddau cemegol cynhwysion. | (b) **Llunio cynllun ymchwiliad bwyd** – os yw'r athro wedi penderfynu caniatáu gwaith grŵp, caniateir cydweithio ar ffurf trafodaeth ar y dasg hon.<br><br>Sylwch, efallai y byddwch yn datblygu rhagdybiaeth a rennir a thrafod cynllun ymchwiliad bwyd a rennir, ond rhaid i chi gael eich dehongliadau a'ch tystiolaeth eich hun o'r tasgau hyn. |
| | **[10 marc]** | | |
| Adnoddau sydd wedi'u caniatáu: mynediad i'r rhyngrwyd a llyfrau.<br>Dylech dreulio tua 2 awr yn cwblhau'r tasgau hyn. | | | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| Tasg | | Tystiolaeth | Rheolaethau |
|---|---|---|---|
| **2** | **Cynnal ymchwiliad bwyd**<br><br>Dilynwch gamau'r cynllun ymchwiliad bwyd i brofi neu wrthbrofi eich rhagdybiaeth.<br><br>(a) **Casglu canlyniad**<br>Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r dulliau o gasglu data a nodir yn eich cynllun ymchwiliad bwyd i gwblhau'r tasgau canlynol:<br>• cynnal ymchwiliad bwyd i brofi eich rhagdybiaeth<br>• addasu eich newidynnau dewisol i brofi eich rhagdybiaeth<br>• cynhyrchu canlyniadau bwyd ymarferol<br>• defnyddio dulliau o brofi rhinweddau synhwyraidd i gynnal prawf dadansoddi rhinweddau synhwyraidd.<br><br>(b) **Cyflwyno canlyniadau**<br>Mae'n rhaid i chi ddefnyddio dulliau i gyflwyno'ch canlyniadau fel:<br>• ffotograffau/darluniau wedi'u hanodi<br>• siartiau bar/siartiau cylch<br>• diagramau seren<br>• tablau.<br><br>(c) **Dadansoddiad o'r canlyniadau**<br>Rhaid i chi ddadansoddi'r data a'r canlyniadau a gasglwyd gan gyfeirio at yr archwilio a'r ymchwilio a gynhaliwyd. | **Tystiolaeth o gasglu canlyniadau –** rhaid i chi ysgrifennu cofnod o’r ymchwiliad bwyd, gan gynnwys y wybodaeth ganlynol:<br>• Tystiolaeth o gasglu data<br>• Tystiolaeth o newidynnau wedi'u haddasu gan gynnwys yr addasiadau<br>• Tystiolaeth ffotograffig o ganlyniadau bwyd<br>• Tystiolaeth o brofion rhinweddau synhwyraidd, gan ddefnyddio disgrifyddion synhwyraidd.<br><br>**Cyflwyno canlyniadau –** rhaid i chi gyflwyno canlyniadau eich gwaith ymchwilio gan ddefnyddio eich dull/dulliau dewisol. Rhaid cynnwys tystiolaeth ffotograffig.<br><br>**Dadansoddiad ysgrifenedig o'r canlyniadau –** rhaid i chi ysgrifennu dadansoddiad o'ch canlyniadau. Rhaid i chi gynnwys:<br>• Cyfeiriad at yr ymchwil a wnaethoch yn Nhasg 1<br>• Lluniwch gasgliadau yn seiliedig ar nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y cynhwysion a ddewiswyd gan gyfeirio at eich ymchwil. | **Goruchwyliaeth:**<br>Uniongyrchol<br><br>**Arweiniad:**<br>Wedi'u caniatáu<br><br>**Adnoddau:**<br>Heb ei ganiatáu<br><br>**Cydweithio:**<br>Wedi'i ganiatáu'n rhannol<br><br>(a) **Casglu canlyniadau**<br>– Os yw'r athro wedi penderfynu caniatáu gwaith grŵp, caniateir cydweithio ar gyfer y dasg hon.<br><br>Sylwer, gallwch gasglu canlyniadau fel grŵp ond **rhaid** i chi gyflwyno a dadansoddi eich canlyniadau ysgrifenedig eich hun ar gyfer (b) ac (c). |
| | **[20 marc]** | | |
| Dylech dreulio tua 4 awr yn cwblhau'r tasgau hyn. | | | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| Tasg | | Tystiolaeth | Rheolaethau |
|---|---|---|---|
| 3 | **Adfyfyrio a Gwerthuso**<br><br>Rhaid i chi gwblhau adfyfyrio a gwerthusiad o'r ymchwiliad bwyd trwy dynnu casgliadau ar sail y canlyniadau a'r data a gasglwyd a gwerthuso'r canlyniadau.<br><br>(a) **Adfyfyrio**<br><br>Rhaid i chi adfyfyrio ar y rhagdybiaeth a ddatblygwyd gennych chi (neu chi a'ch grŵp) yn ystod Tasg 1. Mae'n rhaid i'r adfyfyrio hyn fod yn seiliedig ar y canlynol:<br><br>• dadansoddiad o'r data a'r canlyniadau a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd<br>• cymhariaeth o'r canlyniadau gwirioneddol a gasglwyd o'i gymharu â'r canlyniadau disgwyliedig.<br><br>(b) **Gwerthuso**<br><br>Mae'n rhaid i chi werthuso'r ymchwiliad bwyd yn seiliedig ar yr ystyriaethau canlynol:<br>• y dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu a dadansoddi'r canlyniadau<br>• gwerthusiad o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y newidynnau a addaswyd. | **Tystiolaeth adfyfyrio** – rhaid i chi ysgrifennu'n adfyfyrio ar eich rhagdybiaeth. Rhaid i chi gynnwys:<br>• dadansoddiad o'r data a'r canlyniadau a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd<br>• cymhariaeth o ganlyniadau gwirioneddol o'i gymharu â'r canlyniadau disgwyliedig.<br><br>**Tystiolaeth werthuso** – rhaid i chi ysgrifennu gwerthusiad o'r ymchwiliad bwyd. Rhaid i chi gynnwys:<br>• gwerthusiad o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data a dadansoddi canlyniadau gan gynnwys profion rhinweddau synhwyraidd a'r disgrifyddion synhwyraidd a ddefnyddiwyd<br>• gwerthusiad o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y newidynnau a addaswyd gennych yn ystod yr ymchwiliad bwyd. | **Goruchwyliaeth:**<br>Uniongyrchol<br><br>**Arweiniad:**<br>Heb eu caniatáu.<br><br>**Adnoddau:**<br>Heb ei ganiatáu<br><br>**Cydweithio:**<br>Heb ei ganiatáu |
| | **[10 marc]** | | |
| Dylech dreulio tua 2 awr yn cwblhau'r tasgau hyn. | | | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd, 2024

## Gwybodaeth i ymgeiswyr

Mae'r wybodaeth ganlynol yn dod o ddogfennau'r CGC Gwybodaeth i Ymgeiswyr – asesiadau di-arholiad a Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Asesiadau: Diogelu Uniondeb Cymwysterau. Mae'r ddogfen hon yn sôn am bethau y **dylech** ac **na ddylech** eu gwneud wrth gwblhau eich asesiad. Os nad ydych yn deall rhywbeth, **rhaid** i chi ofyn i'ch athro/athrawes.

### Paratoi eich gwaith

- Pan fyddwch yn cyflwyno eich gwaith ac yn llofnodi eich ffurflen datganiad yr ymgeisydd, mae angen i chi sicrhau bod eich cynnyrch terfynol yn dangos eich gwaith annibynnol chi eich hun. Ni ddylai fod yn gopi nac yn aralleiriad o ffynhonnell arall fel offeryn DA.
- Os byddwch yn derbyn cymorth ac arweiniad gan unrhyw un heblaw eich athro/athrawes, rhaid i chi ddweud wrth eich athro/athrawes a byddan nhw wedyn yn cofnodi natur y cymorth a roddwyd i chi.
- Os buoch chi'n gweithio fel rhan o grŵp ar dasg, **rhaid** i bob un ohonoch chi ysgrifennu eich cyfrif eich hun o'r aseiniad. Hyd yn oed os yw'r data sydd gennych chi'r un fath, **rhaid** i chi ddisgrifio yn eich geiriau eich hun sut cafwyd y data hynny a **rhaid** i chi ddod i'ch casgliadau eich hun am y data yn annibynnol.
- Cymerwch ofal o'ch gwaith a'i gadw'n ddiogel. **Peidiwch** â'i adael o gwmpas lle gall eich cyd-ddisgyblion ddod o hyd iddo a **pheidiwch** â'i rannu â neb, gan gynnwys ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. **Rhaid** i chi bob amser gadw eich gwaith yn ddiogel ac yn gyfrinachol wrth i chi ei baratoi; **peidiwch** â'i rannu â'ch cyd-ddisgyblion. Os byddwch yn ei gadw ar y rhwydwaith cyfrifiadurol, cadwch eich cyfrinair yn ddiogel. Casglwch yr holl gopïau o'r peiriant argraffu a dinistriwch y rheini nad oes eu hangen arnoch.
- Peidiwch â chael eich temtio i ddefnyddio datrysiadau ar-lein sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw (pethau fel y rhai sy'n cael eu cynhyrchu gan offeryn neu sgwrsfot DA) – twyllo yw hyn. Gall offer electronig sy'n cael eu defnyddio gan CBAC ganfod y math hwn o gopïo.
- **Ni ddylech** ysgrifennu deunydd amhriodol, anweddus na sarhaus.

### Llên-ladrad

Llên-ladrad yw cymryd geiriau, barn neu syniadau rhywun arall a cheisio honni mai eich gwaith chi ydyw. **Mae'n ffurf o dwyllo ac mae'n cael ei ystyried yn ddifrifol iawn.**
Peidiwch â meddwl na chewch chi eich dal; mae sawl ffordd o ganfod llên-ladrad:
- Gall marcwyr sylwi ar newidiadau yn arddull yr ysgrifennu a'r defnydd o iaith.
- Mae marcwyr yn arbenigwyr pwnc hynod brofiadol – efallai y byddant wedi darllen y ffynhonnell rydych chi'n ei defnyddio, neu hyd yn oed wedi marcio'r gwaith rydych chi wedi copïo ohono!
- Gellir defnyddio peiriannau chwilio'r rhyngrwyd a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol i gysylltu ymadroddion neu ddarnau o destun â ffynonellau gwreiddiol ac i ganfod newidiadau mewn gramadeg ac yn arddull yr ysgrifennu neu'r atalnodi.

### Cosbau am dorri'r rheoliadau

Os ydych chi'n cael eich canfod yn torri'r rheoliadau, byddwch chi'n cael eich cosbi gan ddefnyddio un o'r cosbau canlynol:
- rhoi marc o sero i'r darn o waith
- byddwch chi'n cael eich diarddel o'r Uned honno ar gyfer y gyfres asesu dan sylw
- byddwch chi'n cael eich diarddel o'r pwnc cyfan ar gyfer y gyfres asesu dan sylw
- byddwch chi'n cael eich diarddel o bob pwnc a'ch rhwystro rhag ailgofrestru am gyfnod o amser.

Bydd CBAC yn penderfynu pa gosb sy'n briodol.

**Cofiwch – eich cymhwyster chi ydyw felly rhaid mai eich gwaith chi ydyw.**



© WJEC CBAC Ltd, 2024

## CYNLLUN MARCIO

### Canllawiau i aseswyr

**Egwyddorion marcio cyffredinol**

**Gridiau asesu ar gyfer asesiad di-arholiad**

**Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau**

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob Band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae disgrifydd y band yn disgrifio lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau. Cyn marcio, dylai'r athro yn gyntaf ddarllen ac anodi project ymgeisydd er mwyn nodi’r dystiolaeth sy’n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r anodi, gallwch gymhwyso'r cynllun marcio.

Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai'r athro edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marciau ar gyfer yr adran honno. Dylai'r athro edrych ar y disgrifydd ar gyfer y band hwnnw a gweld a yw’n cyfateb i’r nodweddion a welir yng ngwaith yr ymgeisydd ar gyfer yr adran honno. Os yw disgrifydd y band isaf wedi'i fodloni, dylai yr athro symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.  Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o’r cynnwys yn waith band 3, byddai’r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai’r marc a roddir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3. Ni ddylai athrawon dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o’u gwaith.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Ar ôl penderfynu ar y band, gall yr athro wedyn roi marc. Dylai'r athro gofio bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd. Os nad yw’r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid rhoi unrhyw farciau. Mae safoni mewnol yn hanfodol. Os oes mwy nag un athro/athrawes mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu yn y ganolfan.



© WJEC CBAC Ltd, 2024

# Cynllun marcio

Bydd y cynllun marcio canlynol yn cael ei ddefnyddio i asesu eich gwaith.

**Bydd marc o 0 yn cael ei roi os nad oes tystiolaeth neu os nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn haeddu marc.**

<table>
<tr><th colspan="2">Tasg 1</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cynllunio'r ymchwiliad bwyd<br>(a) Mae'r ymgeisydd wedi ymchwilio i nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y bwyd a nodir yn y briff a ddewiswyd gennych<br>(b) Mae’r ymgeisydd wedi llunio cynllun ymchwiliad bwyd manwl o’r arbrofion sydd i'w cynnal<br>(c) Mae'r ymgeisydd wedi rhoi cyfiawnhad trylwyr o'r dewis o waith arbrofol ac addasiadau, sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol cynhwysion mewn rysáit.</td></tr>
<tr><th>Band</th><th>AA2</th></tr>
<tr><td>5</td><td>Rhowch 9–10 marc<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos:<br>(a) Mae'r ymgeisydd wedi ymchwilio'n drylwyr ac wedi dangos dealltwriaeth ragorol o'r briff a nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y bwyd.<br>(b) Mae'r ymgeisydd wedi llunio cynllun manwl o arbrofion i'w cynnal. Mae'r cynllun yn cynnwys:<br>• rhestr gynhwysfawr o'r offer gofynnol a’u diben<br>• mae newidynnau addas wedi'u nodi gyda disgrifiadau trylwyr o’u rolau<br>• disgrifiad trylwyr o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data gan ddefnyddio profion rhinweddau synhwyraidd<br>• disgrifiad trylwyr o'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi canlyniadau gan ddefnyddio profion dadansoddi synhwyraidd.<br>(c) Mae'r ymgeisydd wedi cynhyrchu cyfiawnhad trylwyr o'r dewis o waith arbrofol ac addasiadau sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol cynhwysion mewn rysáit.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| | |
|---|---|
| **4** | **Rhowch 7–8 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n dangos:<br><br>(a) Mae'r ymgeisydd wedi ymchwilio'n fanwl ac mae wedi dangos dealltwriaeth dda iawn o'r briff a nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y bwyd.<br><br>(b) Mae'r ymgeisydd wedi llunio cynllun manwl o arbrofion i'w cynnal. Mae'r cynllun yn cynnwys:<br>• rhestr fanwl o'r offer gofynnol a'u diben<br>• nodi newidynnau addas gyda disgrifiadau manwl o'u rolau<br>• disgrifiad manwl a thrylwyr o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data gan ddefnyddio profion rhinweddau synhwyraidd<br>• disgrifiad manwl a thrylwyr o'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi canlyniadau gan ddefnyddio profion dadansoddi synhwyraidd.<br><br>(c) Mae'r ymgeisydd wedi cynhyrchu cyfiawnhad manwl o'r dewis o waith arbrofol ac addasiadau sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol cynhwysion mewn rysáit. |
| **3** | **Rhowch 5-6 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos:<br><br>(a) Mae'r ymgeisydd yn amlwg wedi ymchwilio a dangos dealltwriaeth dda o'r briff a nodweddion gweithredol, swyddogaethau a/neu briodweddau cemegol y bwyd.<br><br>(b) Mae'r ymgeisydd wedi llunio cynllun clir o arbrofion i'w cynnal. Mae'r cynllun yn cynnwys:<br>• rhestr glir o'r offer gofynnol a'u diben<br>• nodi newidynnau addas gyda disgrifiadau o'u rolau<br>• disgrifiadau o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data gan ddefnyddio profion rhinweddau synhwyraidd<br>• disgrifiadau o'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi canlyniadau gan ddefnyddio profion dadansoddi synhwyraidd.<br><br>(c) Mae'r ymgeisydd wedi rhoi cyfiawnhad clir o'r dewis o waith arbrofol ac addasiadau sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol cynhwysion mewn rysáit. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| | |
|---|---|
| **2** | **Rhowch 3-4 marc**<br>Ymateb **sylfaenol** sy'n dangos:<br><br>(a) Mae'r ymgeisydd wedi ymchwilio a dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r briff a nodweddion gweithredol, swyddogaethau a/neu briodweddau cemegol y bwyd.<br><br>(b) Mae'r ymgeisydd wedi llunio cynllun o arbrofion i'w cynnal. Mae'r cynllun yn cynnwys:<br>• rhestr o'r offer gofynnol a'u pwrpas<br>• nodi newidynnau addas gyda disgrifiad sylfaenol o'u rolau<br>• rhestr o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data gan ddefnyddio profion rhinweddau synhwyraidd<br>• rhestr o'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi canlyniadau gan ddefnyddio profion dadansoddi synhwyraidd.<br><br>(c) Mae'r ymgeisydd wedi rhoi rhywfaint o gyfiawnhad o'r dewis o waith arbrofol a/neu addasiadau sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r nodweddion gweithredol, a swyddogaethau a/neu briodweddau cemegol cynhwysion mewn rysáit. |
| **1** | **Rhowch 1-2 farc**<br>Ymateb **cyfyngedig** sy'n dangos:<br><br>(a) Mae'r ymgeisydd wedi ymchwilio a dangos dealltwriaeth gyfyngedig o'r briff a nodweddion gweithredol a/neu swyddogaethau a/neu briodweddau cemegol y bwyd.<br><br>(b) Mae'r ymgeisydd wedi llunio cynllun o arbrofion i'w cynnal. Mae'r cynllun yn cynnwys:<br>• rhestr o'r offer angenrheidiol<br>• nodi rhai newidynnau heb fawr ddim disgrifiad o'u rôl neu ddim disgrifiad o'u rôl<br>• rhestr o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data<br>• rhestr o'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi canlyniadau.<br><br>(c) Mae'r ymgeisydd wedi rhoi cyfiawnhad cyfyngedig o'r dewis o waith neu addasiadau arbrofol, sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r nodweddion gweithredol, neu swyddogaethau neu briodweddau cemegol cynhwysion mewn rysáit. |
| **0** | **Rhowch 0 marc**<br><br>Dim ymgais i ateb y cwestiwn neu dim ymateb sy’n haeddu marc. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| Tasg 2 |
| --- |
| **Cynnal ymchwiliad bwyd**<br><br>Dilynwch gamau'r cynllun ymchwiliad bwyd i brofi neu wrthbrofi eich rhagdybiaeth.<br><br>(a) **Casglu canlyniad**<br>Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio dulliau o gasglu data a nodir yn ei gynllun ymchwiliad bwyd i gwblhau'r tasgau canlynol:<br>• cynnal ymchwiliad bwyd i brofi'r rhagdybiaeth<br>• addasu'r newidynnau a ddewiswyd i brofi'r rhagdybiaeth<br>• defnyddio dulliau o brofi rhinweddau synhwyraidd i gynnal prawf dadansoddi rhinweddau synhwyraidd.<br><br>(b) **Cyflwyno canlyniadau**<br>Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio dulliau i gyflwyno ei ganlyniadau fel:<br>• ffotograffau/darluniau wedi'u hanodi<br>• siartiau bar/siartiau cylch<br>• diagramau seren<br>• tablau.<br><br>(c) **Dadansoddiad o'r canlyniadau**:<br>Mae'r ymgeisydd wedi dadansoddi'r data a'r canlyniadau a gasglwyd gan gyfeirio at yr archwilio a'r ymchwilio a gynhaliwyd. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| Band | AA2 |
| --- | --- |
| **5** | **Rhowch 17–20 marc**<br>Ymateb **ardderchog** sy'n dangos:<br><br>(a) Cofnod trylwyr o'r ymchwiliad bwyd sy'n cynnwys:<br>• tystiolaeth drylwyr o gasglu data<br>• disgrifiad trylwyr o'r newidynnau wedi'u haddasu gan gynnwys yr addasiadau<br>• disgrifiadau trylwyr o brofion rhinweddau synhwyraidd gan ddefnyddio disgrifyddion synhwyraidd.<br><br>(b) Cyflwynir y canlyniadau mewn ffordd hynod effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau addas, sy'n cynnwys:<br>• ffotograffau/darluniau o bob cam gydag anodiadau manwl sy'n ychwanegu eglurder<br>• siartiau bar/cylch sy’n hynod effeithiol, wedi'u labelu a'u fformatio'n gywir<br>• diagramau seren sy’n hynod effeithiol, wedi'u labelu a'u fformatio'n gywir<br>• tablau sydd wedi’u trefnu'n effeithiol, gan ddangos categoreiddio manwl gywir.<br><br>(c) Caiff y canlyniadau eu dadansoddi'n drylwyrgan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y cynhwysion a ddewisiwyd. Mae'r casgliadau a gyflwynir yn fanwl ac yn seiliedig ar nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y cynhwysion a ddewisiwyd gan gyfeirio'n fanwl at yr ymchwil a gynhaliwyd. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| | |
|---|---|
| **4** | **Rhowch 13–16 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n dangos:<br><br>(a) Cofnod manwl o'r ymchwiliad bwyd sy'n cynnwys:<br>• tystiolaeth fanwl o gasglu data<br>• disgrifiad manwl o'r newidynnau wedi'u haddasu gan gynnwys yr addasiadau<br>• disgrifiadau manwl o brofion rhinweddau synhwyraidd gan ddefnyddio disgrifyddion synhwyraidd.<br><br>(b) Cyflwynir y canlyniadau mewn ffordd effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau addas, sy'n cynnwys:<br>• ffotograffau/darluniau o bob cam gydag anodiadau yn ychwanegu eglurder<br>• siartiau bar / cylch sy'n effeithiol, wedi'u labelu'n gywir a / neu wedi'u fformatio<br>• diagramau seren sy'n effeithiol, wedi'u labelu'n gywir a / neu wedi'u fformatio<br>• tablau sydd wedi'u trefnu'n effeithiol.<br><br>(c) Dadansoddir y canlyniadau'n fanwl gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y cynhwysion a ddewiswyd. Mae'r casgliadau a gyflwynir yn fanwl ac yn seiliedig ar nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y cynhwysion a ddewisir gan gyfeirio'n fanwl at yr ymchwil a gynhaliwyd. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| | |
|---|---|
| **3** | **Rhowch 9-12 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos:<br><br>(a) Cofnod clir o'r ymchwiliad bwyd sy'n cynnwys:<br>• tystiolaeth glir o gasglu data<br>• disgrifiad clir o'r newidynnau wedi'u haddasu gan gynnwys yr addasiadau<br>• disgrifiadau clir o brofion rhinweddau synhwyraidd gan ddefnyddio rhai disgrifyddion synhwyraidd.<br><br>(b) Cyflwynir y canlyniadau mewn ffordd glir gan ddefnyddio dulliau addas, sy'n cynnwys:<br>• ffotograffau/darluniau gydag anodiadau<br>• siartiau bar / cylch sydd wedi'u labelu a/neu wedi'u fformatio'n gywir ar y cyfan<br>• diagramau seren sydd wedi'u labelu'n a/neu wedi'u fformatio'n gywir ar y cyfan<br>• mae'r tablau yn glir.<br><br>(c) Caiff y canlyniadau eu dadansoddi'n glir gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y cynhwysion a ddewiswyd. Mae'r casgliadau a gyflwynir yn glir ac yn seiliedig ar y cyfan ar nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y cynhwysion a ddewisir gan gyfeirio'n glir at yr ymchwil a wnaed. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| | |
|---|---|
| **2** | **Rhowch 5-8 marc**<br>Ymateb **sylfaenol** sy'n dangos:<br><br>(a) Cofnod sylfaenol o'r ymchwiliad bwyd sy'n cynnwys:<br>• tystiolaeth sylfaenol o gasglu data<br>• disgrifiad sylfaenol o'r newidynnau wedi'u haddasu gan gynnwys yr addasiadau<br>• disgrifiadau sylfaenol o brofion rhinweddau synhwyraidd gan ddefnyddio rhai disgrifyddion synhwyraidd.<br><br>(b) Cyflwynir y canlyniadau mewn ffordd sylfaenol sy'n cynnwys:<br>• ffotograffau/darluniau gyda rhai anodiadau sylfaenol<br>• siartiau bar / cylch sydd wedi'u labelu a/neu wedi'u fformatio'n gywir ar y cyfan<br>• diagramau seren sydd wedi'u labelu'n a/neu wedi'u fformatio'n gywir ar y cyfan<br>• mae'r tablau yn glir ar y cyfan.<br><br>(c) Dadansoddir y canlyniadau gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a/neu briodweddau cemegol y cynhwysion a ddewiswyd. Mae'r casgliadau a gyflwynir yn sylfaenol ac yn seiliedig ar y cyfan ar nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y cynhwysion a ddewisir gan gyfeirio'n sylfaenol at yr ymchwil a wnaed. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| | |
|---|---|
| **1** | **Rhowch 1-4 marc**<br>Ymateb **cyfyngedig** sy'n dangos:<br><br>(a) Cofnod cyfyngedig o'r ymchwiliad bwyd sy'n cynnwys:<br>• tystiolaeth gyfyngedig o gasglu data<br>• disgrifiad cyfyngedig o'r newidynnau wedi'u haddasu<br>• disgrifiadau cyfyngedig o brofion rhinweddau synhwyraidd.<br><br>(b) Cyflwynir y canlyniadau mewn ffordd glir gan ddefnyddio dulliau addas, sy'n cynnwys:<br>• ffotograffau/darluniau gydag ychydig neu ddim anodi<br>• siartiau bar neu gylch gyda rhai labeli<br>• diagramau seren gyda rhai labeli<br>• mae'n bosibl nad yw'r tablau yn ddigon eglur.<br><br>(c) Dadansoddir y canlyniadau gan ddangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o nodweddion gweithredol, swyddogaethau neu briodweddau cemegol y cynhwysion a ddewiswyd. Mae'r casgliadau a gyflwynir yn gyfyngedig gan gyfeirio at yr ymchwil a gynhaliwyd. |
| **0** | **Rhowch 0 marc**<br><br>Dim ymgais i ateb y cwestiwn neu dim ymateb sy'n haeddu marc. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| Tasg 3 | |
|---|---|
| **Adfyfyrio a gwerthuso: uchafswm o 10 marc**<br><br>(a) **Adfyfyrio**<br><br>Mae'r ymgeisydd wedi adfyfyrio ar y rhagdybiaeth a ddatblygwyd ganddo (neu'r grŵp) yn ystod Tasg 1. Mae'r myfyrdod hwn yn seiliedig ar y canlynol:<br>• dadansoddiad o'r data a'r canlyniadau a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd<br>• cymhariaeth o'r canlyniadau gwirioneddol a gasglwyd o'i gymharu â'r canlyniadau disgwyliedig.<br><br>(b) **Gwerthuso**<br><br>Mae'r ymgeisydd wedi gwerthuso'r ymchwiliad bwyd yn seiliedig ar yr ystyriaethau canlynol:<br>• y dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu a dadansoddi'r canlyniadau<br>• gwerthusiad o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y newidynnau wedi'u haddasu. | |
| **Band** | **AA3** |
| **5** | **Rhowch 9–10 marc**<br><br>Adfyfyrio **rhagorol** sy'n adfyfyrio'n drylwyr ar y rhagdybiaeth a ddatblygwyd, sy'n dangos:<br><br>• dadansoddiad trylwyr o'r data a'r canlyniadau a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd<br>• cymhariaeth drylwyr o'r canlyniadau gwirioneddol a gasglwyd o'i gymharu â'r canlyniadau disgwyliedig.<br><br>Gwerthusiad rhagorol sy'n cymryd i ystyriaeth ac yn dangos yn drylwyr:<br><br>• gwerthusiad trylwyr o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data<br>• dadansoddiad trylwyr o ganlyniadau gan gynnwys profion rhinweddau synhwyraidd a'r disgrifyddion synhwyraidd a ddefnyddiwyd<br>• gwerthusiad trylwyr o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y newidynnau a addaswyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| | |
|---|---|
| **4** | **Rhowch 7-8 marc**<br><br>Adfyfyrio **da** iawn sy'n adfyfyrio'n fanwl ar y ragdybiaeth a ddatblygwyd, sy'n dangos:<br>• dadansoddiad manwl o'r data a'r canlyniadau a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd<br>• cymhariaeth fanwl o'r canlyniadau gwirioneddol a gasglwyd o'i gymharu â'r canlyniadau disgwyliedig.<br><br>Gwerthusiad da iawn sy'n ystyried ac yn dangos:<br>• gwerthusiad manwl o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data<br>• dadansoddiad manwl o ganlyniadau gan gynnwys profion rhinweddau synhwyraidd a'r disgrifyddion synhwyraidd a ddefnyddiwyd<br>• gwerthusiad manwl o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y newidynnau a addaswyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd. |
| **3** | **Rhowch 5-6 marc**<br><br>Adfyfyrio **da** sy'n adfyfyrio ar y rhagdybiaeth a ddatblygwyd, sy'n dangos:<br>• dadansoddiad clir o'r data a'r canlyniadau a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd<br>• cymhariaeth glir o'r canlyniadau gwirioneddol a gasglwyd o'i gymharu â'r canlyniadau disgwyliedig.<br><br>Gwerthusiad da sy'n ystyried ac yn dangos:<br>• gwerthusiad clir o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data<br>• dadansoddiad clir o ganlyniadau gan gynnwys profion rhinweddau synhwyraidd a'r disgrifyddion synhwyraidd a ddefnyddiwyd<br>• gwerthusiad clir o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a phriodweddau cemegol y newidynnau a addaswyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd. |



© WJEC CBAC Ltd, 2024

| | |
|---|---|
| **2** | **Rhowch 3-4 marc**<br><br>Adfyfyrio **sylfaenol** sy'n adfyfyrio ar y ragdybiaeth a ddatblygwyd, sy'n dangos:<br>• dadansoddiad sylfaenol o'r data a'r canlyniadau a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd<br>• cymhariaeth sylfaenol o'r canlyniadau gwirioneddol a gasglwyd o'i gymharu â'r canlyniadau disgwyliedig.<br><br>Gwerthusiad sylfaenol sy'n ystyried ac yn dangos:<br>• gwerthusiad sylfaenol o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data<br>• dadansoddiad sylfaenol o ganlyniadau gan gynnwys profion rhinweddau synhwyraidd a'r disgrifyddion synhwyraidd a ddefnyddir<br>• gwerthusiad sylfaenol o nodweddion gweithredol, swyddogaethau a/neu briodweddau cemegol y newidynnau a addaswyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd. |
| **1** | **Rhowch 1-2 farc**<br><br>Adfyfyrio **cyfyngedig** sy'n adfyfyrio ar y rhagdybiaeth, sy'n dangos:<br>• dadansoddiad cyfyngedig o'r data a/neu'r canlyniadau a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd<br>• disgrifiad cyfyngedig o'r canlyniadau a gasglwyd.<br><br>Gwerthusiad sylfaenol sy'n ystyried ac yn dangos:<br>• disgrifiad cyfyngedig o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data<br>• disgrifiad cyfyngedig o'r canlyniadau gan gynnwys profion rhinweddau synhwyraidd<br>• disgrifiad cyfyngedig o nodweddion gweithredol, neu swyddogaethau neu briodweddau cemegol y newidynnau a addaswyd yn ystod yr ymchwiliad bwyd. |
| **0** | **Rhowch 0 marc**<br><br>Dim ymgais i ateb y cwestiwn neu dim ymateb sy’n haeddu marc. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd, 2024

# Mapio tasgau i gynnwys yr uned a'r amcanion asesu

I'w ddefnyddio gyda Deunyddiau Asesu Enghreifftiol yn unig – caiff ei dynnu o Becynnau byw i Ymgeiswyr

| **Tasgau** | **Cynnwys yr uned (is-destun)** | | | | | | | | | **Dyraniad marciau** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2.1** | | | **2.2** | | | **2.3** | | | **Cyfanswm y Marciau** | **Marciau AA1** | **Marciau AA2** | **Marciau AA3** |
| | 2.1.1 | 2.1.2 | 2.1.3 | 2.2.1 | 2.2.2 | 2.2.3 | 2.3.1 | 2.3.2 | 2.3.3 | | | | |
| **Tasg 1** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | 10 | |
| **Tasg 2** | | | | | | | ✓ | ✓ | | | | 20 | |
| **Tasg 3** | | | | | | | | | ✓ | | | | 10 |
| | | | | | | | | | | | **0** | **30** | **10** |



© WJEC CBAC Ltd, 2024

Ffurflen Datganiad yr Ymgeisydd

**Rhaid i chi gwblhau Rhan A a Rhan B y ffurflen hon**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif y Ganolfan:** | | | | | | | | **Enw'r Ganolfan:** | |
| | | | | | | | | | |
| **Rhif yr ymgeisydd:** | | | | | | | | **Enw'r Ymgeisydd:** | |
| | | | | | | | | | |
| **Teitl yr uned:** | | | | | | | | | |

**Rhan A: Datganiad yr Ymgeisydd**

| **Cyfeiriadau:** Nodwch o ba ffynhonnell yn union y daeth unrhyw ddeunydd nad yw'n wreiddiol sydd wedi ei ddefnyddio yn yr aseiniad. | **Rhestr o becynnau meddalwedd/offer/sgwrsfotiau DA[1]:** Nodwch yn fyr sut gwnaethoch chi ddefnyddio'r rhain yn yr aseiniad. |
|---|---|
| | |

**Datganiad Dilysu**
Rwy'n datgan fy mod wedi cwblhau fy ngwaith yn annibynnol, heb unrhyw gymorth y tu hwnt i'r hyn oedd wedi ei ganiatáu. Fy ngwaith fy hun yw'r gwaith i gyd, ac eithrio unrhyw ddeunydd nad yw'n wreiddiol sydd wedi'i nodi'n glir uchod. Nid yw'r gwaith hwn wedi'i gyflwyno ar gyfer unrhyw gymhwyster arall. Yr wyf wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer Deallusrwydd Artiffisial (AI) a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rwy'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.

| **Llofnod yr ymgeisydd:** | **Dyddiad:** |
|---|---|

SAMPLE

[1] Lle defnyddiwyd offer DA fel ffynhonnell gwybodaeth, rhaid i chi ddangos enw'r ffynhonnell DA a ddefnyddiwyd gan ddangos hefyd y dyddiad y cynhyrchwyd y cynnwys. Er enghraifft: ChatGPT 3.5 (https://openai.com/blog/chatgpt/), 25/01/2023. Rhaid i chi gadw copi o'r cwestiwn/cwestiynau a'r cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur at ddibenion cyfeirnodi a dilysu, ar ffurf nad oes modd ei golygu (sgrinlun, er enghraifft) a darparu esboniad byr o sut cafodd ei ddefnyddio. Rhaid cyflwyno hyn gyda'ch gwaith, er mwyn i'r athro/aseswr allu adolygu'r gwaith, y cynnwys a gynhyrchwyd gan AI a sut y cafodd ei ddefnyddio.



© WJEC CBAC Ltd, 2024

**Diwedd y Pecyn Asesu Ymgeiswyr**



© WJEC CBAC Ltd, 2024